RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD JON HARLAND AR RAN Y BLAID WERDD I'W YSTYRIED GAN Y CYNGOR LLAWN.

Mae'r Cyngor:

- yn bryderus ynghylch nifer yr achosion y rhoir gwybod i'r RSPCA amdanynt bob blwyddyn mewn perthynas â'r defnydd o anifeiliaid anwes fel gwobrau mewn ffeiriau, ar y cyfryngau cymdeithasol neu sianeli eraill
- yn bryderus am les yr anifeiliaid hynny a gaiff eu rhoi fel gwobrau
- yn cydnabod bod nifer o achosion o ddefnyddio anifeiliaid anwes fel gwobrau yn digwydd bob blwyddyn heb adroddiad ohono
- yn cefnogi cynnig i wahardd defnyddio anifeiliaid fel gwobrau, mewn unrhyw ffurf, yn llwyr ar dir Cyngor Sir Ddinbych

Mae'r Cyngor yn cytuno i:

- wahardd defnyddio anifeiliaid fel gwobrau, mewn unrhyw ffurf, yn llwyr ar dir Cyngor Sir Ddinbych.
- ysgrifennu at Lywodraeth y DU, yn erfyn arnynt i wahardd y defnydd o anifeiliaid fel gwobrau yn llwyr ar dir cyhoeddus a phreifat.